

# TAITH CÔR MERCHED HÛN YSGOL GYFUN BRO MYRDDIN I BELFAST

Ychydig dros chwe mis yn ôl cafodd Côr Merched HÛn Ysgol Bro Myrddin wahoddiad i ganu mewn gwasanaeth yn Ysgol Gaelcholaiste Dhoire yn Dungiven, Gogledd Iwerddon, yn dilyn



ymweliad gan Diarmaid Ua Bruadair, prifathro'r ysgol â Chaerfyrddin. Yn sgil yr ymweliad, gwelwyd tebygrwydd amlwg rhwng y frwydr i sefydlu ysgolion cyfrwng Cymraeg yng Nghymru a'r frwydr i sefydlu ysgolion cyfrwng Gwyddeleg yng Ngogledd Iwerddon.

Dechreuodd y daith yn gynnar iawn fore Mawrth, Mehefin 26ain gan adael yr ysgol am un o'r gloch y bore! Yn dilyn taith awyren fer pan hedfanom uwchben gogledd Sir Gaerfyrddin a chroesi'r arfordir uwchben Aberaeron, cyrhaeddodd Belfast tua amser brecwast. Er y diffyg cwsg, gollyngom ein bagiau yn y gwesty gan gerdded i ganol y ddinas lle gwelsom rai o'i phrif

atyniadau gan gynnwys Neuadd y Ddinas. Cawsom agoriad llygaid wrth i ni gyrraedd canolfan siopa enfawr a threulio ychydig o amser yn siopa a bwyta yno. Ar ôl cael llond bol ar y siopa, cerddom trwy'r gwres llethol i Eglwys Gadeiriol Belfast lle buom yn diddanu'r ymwelwyr am gyfnod. Ymlaen wedyn i Amgueddfa'r Titanic lle cawsom gyfnod difyr gan ddysgu llawer am gefndir y llong enwog a adeiladwyd yn un o ddociau Belfast yn 1911. Ar ôl hyn cawsom fws yn ôl i'r gwesty a newid cyn mynd allan am fwyd mewn bwyty lleol. Gallaf gadarnhau i bawb gael noson dda o gwsg y noson honno.



Drannoeth, wedi brecwast blasus, teithiom ar y bws am ychydig oriau i'r Giants Causeway. Arhosom ar y ffordd yn Carlough Bay am hufen iâ a chael cyfle i ganu i'r bobl leol. Roedd yr olygfa odidog o'r arfordir yn ein dilyn yr holl ffordd i'r Giants Causeway. Cawsom brofiad a hanner yn cerdded yn Giants Causeway a gwrando ar yr holl hanes y tu ôl i'r atyniadau naturiol. Yng



nghanol holl fwrlwm y lleoliad, penderfynodd Dr Griffiths ei bod hi'n syniad da i ni ganu eto. Roedd hi'n deimlad hynod o braf i ganu allan yn yr awyr agored mewn man mor hanesyddol a chael tyrfa wedi ymgynnull i wrando arnom. Buom yn cerdded y cerrig hanesyddol a chymryd llawer o luniau cofiadwy iawn. Cawsom daith hwylus yn ôl i'r ddinas ar y bws cyn mynd allan am bryd o fwyd yn y ganolfan siopa gyda'r hwyr. Diwrnod prysur a chofiadwy arall!

Cododd pawb yn gynnar iawn fore lau, Mehefin 28ain, cyn mynd ati i ymweld â phrifysgol enwog 'Queen's' lle cawsom flas ar y brifysgol ynghyd ag ymarfer sydyn. Ar ôl yr ymarfer, aethom ar y bws i gwrdd ag athro hanes mewn ysgol uwchradd leol a fu mor garedig â'n tywys o amgylch Falls Road, ardal a oedd yn amlwg iawn yn ystod y terfysgoedd yn y 1970au ac 80au. Roedd yn brofiad gwerth chweil i weld yr holl furluniau trawiadol yn adrodd hanes y gwrthdaro yn Belfast a'r hanes o ail gydio yn yr iaith Wyddeleg. Cawsom gyfle i weld ysgol uwchradd yn yr ardal a gweld sut maent wedi datblygu cymuned Wyddeleg. Ar ôl cael llawer o hanes am Belfast, aethom yn ôl ar y bws a theitho am oddeutu awr a hanner i



Ysgol Gaelcholaiste Dhoire yn Dungiven. Nid oedd yr ysgol yn edrych fel ysgol arferol gan ei bod wedi ei lleoli mewn castell! Cawsom groeso twymgalon gan y prifathro a chael cyfle i gael cinio ac ymweld â'r ysgol a chwrdd â rhai o'r disgyblion. Rhaid dweud bod yr ysgol yng nghanol y broses o sefydlu cymuned Wyddeleg yn yr ardal gyda 82 o ddisgyblion yn unig yn mynychu'r ysgol. Cawsom ein tywys i'r ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ar gyfer y gwasanaeth lle cawsom flas o'u perfformiadau a'u doniau nhw cyn cael y cyfle i ganu rhaglen fer o ganeuon Cymraeg iddynt. Cawsom oll brofiad gwych yn perfformio ac yn gwrando ar ganeuon Gwyddeleg. Wedi'r

cyngerdd cofiadwy, teithiom yn ôl i'r gwesty a pharatoi i fynd allan am fwyd cyn dychwelyd maes o law i wylio Love Island!



A dyma ni wedi cyrraedd ein diwrnod ola'. Cawsom frecwast hwyr cyn neidio ar fws agored a'n tywysodd o amgylch y ddinas. Cawsom wledd i'r llygad wrth weld adeiladau hynod drawiadol gan gynnwys y Titanic Studios, murluniau hanesyddol, Senedd Gogledd Iwerddon yn Stormont, y farchnad enwog a llawer mwy. Cawsom ryddid am weddill y dydd i siopa, bwyta a mwynhau ein hunain yn yr heulwen. Yn sicr, roedd pawb wedi mwynhau'r

ddinas yn fawr iawn. Aethom yn ôl i'r gwesty cyn teithio i'r maes awyr a gadael am Fryste tua deg o'r gloch y nos. Tair awr yn ddiweddarach, cyrhaeddom Gaerfyrddin, yn griw o ddisgyblion blinedig dros ben ond a brofodd ymweliad cofiadwy iawn â Gogledd Iwerddon.

Diolch i'r ysgol am drefnu'r ymweliad ar ein cyfer ac i'r athrawon a ddaeth gyda ni ar y daith am eu cwmni a'u cefnogaeth. Gobeithio ein bod wedi llwyddo i roi Caerfyrddin ar y map ac y gwelir y berthynas rhwng Ysgol Bro Myrddin ac Ysgol Gaelcholaiste Dhoire yn datblygu ymhellach eto yn y dyfodol.

Annell Dyfri